Polisi Iechyd a Diogelwch

Mae yna dair rhan i Bolisi Iechyd a Diogelwch Tir Coed:

1. *Datganiad Polisi* – yn datgan credo ac amcanion cyffredinol Tir Coed ar iechyd, diogelwch a lles yn y sefydliad.

2. *Datganiad Sefydliadol* – yn datgan cyfrifoldebau pawb – gan ddisgrifio swyddogaeth a chyfrifoldebau staff a gwirfoddolwyr wrth ystyried iechyd a diogelwch.

3. *Datganiad Gweithredu* – yn datgan yn gryno sut mae ymdrin â rhai o'r meysydd pwysicaf o iechyd a diogelwch.

Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch

Ein Hymrwymiad i Ddiogelwch

Mae gweithwyr, gwirfoddolwyr Tir Coed a phawb sydd yn ymwneud â ni yn hollol ganolog i'r sefydliad. Mae Tir Coed yn ymrwymedig i sicrhau bod ein holl weithgareddau yn digwydd mewn modd sydd yn sicrhau iechyd, diogelwch a ll□s pawb sydd yn gysylltiedig â hwy. Bydd Tir Coed yn gweithio i ddarparu awyrgylch diogel ac iachus ar gyfer ein staff, ein darparwyr gwasanaeth dan gontract, ein gwirfoddolwyr a'n cyfranogwyr, yn llawn amser neu'n rhan amser, yn sefydlog neu dros dro, yn ddysgwyr neu'n gyfranogwyr.

Er mwyn cynorthwyo Tir Coed i wireddu'r ymrwymiad hyn, mae'n ofynnol i bawb sydd yn ymdrin â'r polisi hwn gydymffurfio â phob agwedd berthnasol ohono.

Sut i wireddu'r Ymrwymiad

Bydd Tir Coed yn gweithio i wireddu'r ymrwymiad hyn gan:

- Adnabod ac asesu peryglon i'n pobl, a threfnu a chyflwyno mesurau er mwyn eu dileu neu eu lleihau.
- Parhau i greu, mabwysiadu ac adolygu corff o arferion gweithio diogel ac iachus, rhagofalon diogelwch a rhagofalon atal damweiniau.
- Darparu digon o oruchwyliaeth medrus, cyfarwyddiadau perthnasol ac hyfforddiant addas i bob lefel, o safbwynt iechyd a diogelwch a sgiliau gwaith penodol.
- Profi cymhwyster y Darparwyr Gwasanaeth dan gontract, yn seiliedig ar eu profiad a'u hyfforddiant.
- Darparu lle gwaith diogel ac iachus, gyda chyfleusterau ll□s a chymorth cyntaf addas.
- Darparu a chynnal a chadw offer diogel
- Sicrhau bod sylweddau yn cael eu trin yn ddiogel

- Ymgynghori â'r staff pan fydd unrhyw newidiadau i'r dulliau gweithredu diogelwch neu pan fydd dulliau gweithredu diogelwch newydd yn cael eu cynllunio ac annog staff i gyfranni eu syniadau ei hunain i'r drafodaeth.

- Casglu a dadansoddi gwybodaeth ar ddamweiniau a digwyddiadau peryglus gan ddefnyddio'r wybodaeth i adolygu arferion gweithio.

Ein Cyfrifoldebau

Mae Tir Coed yn cydnabod ac yn derbyn ei chyfrifoldebau cyfreithiol dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974. Rydym yn ystyried bod cydymffurfio â'r rheolau hyn, a phob gosodiad statudol priodol arall, yn safon isaf ar ein cyfer a byddwn yn bwriadu cyflawni'r "ymarfer gweithio gorau" o ran iechyd a diogelwch.
Cynhelir y datganiad hwn gan lyfryn Iechyd a Diogelwch, cyfarwyddiadau yr AGID (HSE), Codau Ymarfer a gwybodaeth arall, sydd, fel cyfanwaith, yn ffurfio ein Llawlyfr Iechyd a Diogelwch. Mae'r nodiadau hyn yn egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau pawb, a sut y mae Tir Coed yn disgwyl i waith cael ei drefnu. Mae Tir Coed yn disgwyl i bob sefydliad sydd yn gweithio gyda ni, neu ar ein cyfer, weithredu gweithdrefnau iechyd a diogelwch digonol a chydweithio gyda ni er mwyn sicrhau ein bod yn medru parhau i wireddu ein hymrwymiad.
Dylai pob aelod o staff, darparwr gwasanaeth dan gontract a gwirfoddolwr sydd yn gweithio ar gyfer Tir Coed ddarllen y datganiad hwn.

Y Sefydliad a Threfniadau

Sefydliad

Mae'r cyfrifoldebau iechyd a diogelwch canlynol yn weithredol oddi fewn i strwythur sefydliadol Tir Coed:

Y Bwrdd:

Mae materion iechyd a diogelwch yn cael eu cyfeirio i Fwrdd Tir Coed, er mwyn iddynt mynd i'r afael â nhw. Cyfrifoldeb Bwrdd Tir Coed yw sicrhau bod y Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch yn cael ei adolygu ar ysbeidiau addas er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion mewnol ac allanol. Bydd yr ysbaid hwn yn gyfnod o dair mlynedd ar y mwyaf. Mae'r Rheolaethau Rheoli (MHSWR) yn mynni bod Tir Coed yn penodi o leiaf un person cymwys i'w cynorthwyo wrth gydymffurfio â'u hymrwymiadau iechyd a diogelwch. Mae'r Bwrdd yn enwebi un o'i aelodau yn **aelod â chyfrifoldeb** dros iechyd a diogelwch, gelwir y swyddogaeth hyn yn **Reolwr Iechyd & Diogelwch.**

Y Rheolwr Iechyd a Diogelwch ar hyn o bryd yw: Rachel Chamberlain

Bydd ef/hi yn:

- Drafftio, datblygu a diweddaru polisi, Codau Ymarfer a gwybodaeth iechyd a diogelwch arall ar ran Tir Coed.
- Sicrhau bod staff a Bwrdd Tir Coed yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth gyfoes berthnasol, cynnal a chadw'r adnodd o gyhoeddiadau iechyd a diogelwch, Codau Ymarfer newydd a diwygiedig a gwybodaeth ar gyfer defnydd Tir Coed.
- Darparu gwasanaeth cyngor canolog ar faterion o iechyd a diogelwch ar gyfer personél Tir Coed.
- Gweithio gyda'r Gweithwyr i fonitro'r modd y mae Tir Coed yn gweithredu'r polisi.
- Rhoddi cyngor i'r Gweithwyr ar y sgiliau, hyfforddiant a'r ddarpariaeth cyfalaf angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r gofynion cyfreithiol.
- Arwain ymchwiliadau i ddamweiniau difrifol, digwyddiadau peryglus neu gwynion am ddiogelwch ar weithgareddau Tir Coed, a gwneud argymelliadau ar newidiadau i arferion gweithio os bydd angen.
- Sicrhau bod y Bwrdd Rheoli yn mynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch yn eu cyfarfodydd.
- Cyflawni hyfforddiant, fel a fynnir, er mwyn eu galluogi i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.
- Sicrhau bod y polisi yn cael ei adolygu pan fo'n addas, a bod y trefniadau a'r sefydliad yn cael eu hadolygu, o leiaf yn flynyddol, gan eu diwygio pan fo angen.

Y Cadeirydd:

Oddi fewn i sefydliad Tir Coed, mae gan y **Cadeirydd** y *cyfrifoldeb* pennaf am weithredu'r Polisi Iechyd a Diogelwch ac am oruchweld gweithrediad y polisi ym mhob un o weithgareddau Tir Coed. Bydd ef/hi yn:

- Sicrhau bod **Cyswllt Iechyd a Diogelwch** yn cael ei enwebu a'i gofnodi ym mhob un o'r adeiladau a ddefnyddir gan Tir Coed (bydd eu swyddogaeth yn cael ei esbonio yn ddiweddarach).

Ar hyn o bryd, rhain yw:

Swyddfa Fferm Denmarc: Becky Hulme

Swyddfa Tŷ Lisburne: Gwyneth Davies

Y Rheolwyr Llinell:
Mae'r cyfrifoldeb o weithredu'r polisi hwn, ym mhob agwedd o waith Tir Coed, wedi ei seilio ar y system o Reolwyr Llinell. Bydd ef/hi, yn eu maes, yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei gynllunio a'i weithredu mewn modd iachus a diogel.
- Sicrhau bod pob prif berygl, damwain adroddadwy a digwyddiad peryglus yn derbyn ymchwiliad.
- Sicrhau bod iechyd a diogelwch yn destun rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm.
- Adolygu, monitro a gwerthuso trefniadau iechyd a diogelwch a chynnydd ar faterion o iechyd a diogelwch ddwywaith bob blwyddyn, gan adrodd i'r Bwrdd ar berfformiad iechyd a diogelwch o leiaf yn flynyddol.
- Sicrhau bod pob gweithiwr yn derbyn hyfforddiant anwytho iechyd a diogelwch sydd yn benodol i'w gwaith a bod yr hyfforddiant hyn yn cael ei gofnodi.
- Sicrhau bod gwybodaeth, cyfarwyddyd ac hyfforddiant ar arferion diogel ar gyfer gweithwyr a gwirfoddolwyr dan eu rheolaeth yn cael eu darparu.
- Sicrhau bod gweithwyr yn dilyn gweithdrefnau gweithio ar eich pen eich hun.
- Sicrhau bod yna ymchwiliadau i gwynion ar iechyd, diogelwch a ll□s sydd yn ymwneud â phobl dan eu rheolaeth.
- Hysbysu'r Cadeirydd o unrhyw anallu i gydymffurfio â'r gofynion hyn.

Y Swyddogion Prosiect:
Mae gan y Swyddogion Prosiect gyfrifoldeb i sicrhau bod y safleoedd, y gweithgareddau, yr offer a'r bobl sydd dan eu rheolaeth yn cyfarfod â gofynion ac yn gweithio yn unol â gofynion y polisi hwn. Byddant yn:

- Sicrhau bob asesiadau risg addas a digonol wedi eu creu a bod y rheolyddion yn cael eu gweithredu ar gyfer pob gweithgaredd, deunydd peryglus a safle dan eu rheolaeth.
- Sicrhau bod gweithrediadau dan eu rheolaeth yn digwydd yn unol â gweithdrefnau iechyd a diogelwch Tir Coed.
- Sicrhau bod yr holl offer a ddefnyddir ar y gweithgareddau yn cydymffurfio â safonau iechyd a diogelwch ac yn cael eu cynnal a'u cadw yn gywir.
- Sicrhau bod y Bwrdd yn ymwybodol o berfformiad iechyd a diogelwch y prosiectau sydd dan eu gofal.
- Sicrhau bod asesiadau COSHH wedi eu gwneud pan yn berthnasol
- Sicrhau bod pob gweithiwr, darparwr gwasanaeth dan gontract, gwirfoddolwr a chyfranogydd yn medru caffael, gweithredu a chydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a gwybodaeth iechyd a diogelwch a ddarperir, ac sydd yn berthnasol i'w gwaith.
- Sicrhau bod Darparwyr Gwasanaeth dan gontract wedi arwyddo rhestr wirio Iechyd a Diogelwch Tir Coed yn rhan o'u contract gwaith.
- Sicrhau bod yna ymchwiliadau i ddamweiniau difrifol a digwyddiadau peryglus sydd yn digwydd dan eu goruchwyliaeth hwy.
- Sicrhau bod yna ymchwiliadau i gwynion iechyd, diogelwch a ll□s sydd yn ymwneud â'u prosiectau.

- Sicrhau bod yna ddigon o adnoddau ar gael i alluogi darparwyr gwasanaeth a phrosiectau i gyflawni eu dyletswyddau iechyd a diogelwch.

- Hysbysu eu rheolwr llinell o unrhyw anallu i gydymffurfio â'r cyfrifoldebau hyn.

Cyswllt Iechyd a Diogelwch
Mae gan bob safle a feddiannir gan bersonél Tir Coed, os ydynt yn weithwyr neu'n wirfoddolwyr, o leiaf un person â enwebir yn Gyswllt Iechyd a Diogelwch. Mae ef/hi yn:

- Monitro arferion iechyd a diogelwch ar eu safle a'u gweithgareddau hwy.

- Sicrhau bod y drefn argyfwng tân yn weithredol, bod allanfeydd tân yn hygyrch ac anrhwystredig a bod y diffoddwyr tân yn cael eu cynnal a chadw yn flynyddol.

- Arddangos y poster Cyfraith Iechyd a Diogelwch ym mhob un o swyddfeydd Tir Coed.

- Adrodd ar unrhyw bryderon i'w rheolwr llinell, gan argymell neu weithredu unrhyw gywiriadau.

- Sicrhau bod Llawlyfr Iechyd a Diogelwch y swyddfa neu'r criw yn gyfoes, a bod unrhyw wybodaeth neu gyfarwyddiadau iechyd a diogelwch newydd ar gael i bawb yn eu swyddfa.

Mae gan bawb, *gan gynnwys gweithwyr, Darparwyr Gwasanaeth dan gontract, dysgwyr a gwirfoddolwyr gyfrifoldeb i:*

- Amddiffyn iechyd a diogelwch eu cydweithwyr/ddysgwyr/wirfoddolwyr.

- Hysbysu rheolwyr o unrhyw anallu i wneud hyn, ac o unrhyw offer neu arferion anniogel.

- Weithredu yn unol â gweithdrefnau ac arferion iechyd a diogelwch Tir Coed.

- Beidio ag amharu ag unrhyw beth a ddarperir er mwyn amddiffyn eu hiechyd a'u diogelwch.

- Beidio ag ymwneud ag unrhyw dasg pan nad ydynt wedi derbyn yr hyfforddiant, cyfarwyddyd neu'r caniatâd priodol.

- Beidio â defnyddio unrhyw offer peiriannol sydd angen ardystiad a phan nad ydyw dan yswiriant Tir Coed.

- I atal eu gwaith os fydd y sefyllfa yn peri bygythiad difrifol neu uniongyrchol i'w hiechyd a'u diogelwch.

Trefniadau

Codau Ymarfer
Cynhelir gweithredu'r Datganiad Polisi gan Godau Ymarfer mewnol addas, a chan ddogfennau eraill sydd yn manylu ar arferion diogel ac ymrwymiadau cyfreithiol. Mae'n rhaid i bob gweithiwr ymgyfarwyddo â'r codau sydd yn berthnasol i'w gwaith yn reolaidd.

Mae'r Rheolwr Iechyd & Diogelwch yn gyfrifol am gyhoeddi a diweddaru'r Codau Ymarfer. Mae'n gyfrifoldeb ar y rheolwyr llinell i sicrhau bod pob gweithiwr, dysgwr a gwirfoddolwr yn ymwybodol o gynnwys y Codau ac yn gweithredu mewn modd addas o ganlyniad.

Mae yna Lawlyfr Iechyd a Diogelwch ym mhob swyddfa lle y lleolir personél Tir Coed, cedwir copïau o'r Polisi a'r Codau Ymarfer yn y llawlyfr hwn. Dangosir y llawlyfr hwn i unrhyw weithiwr, Darparwr Gwasanaeth dan gontract a Swyddog Gwirfoddol newydd yn rhan o'r broses anwytho. Mae yna restr o'r Codau Ymarfer cyfoes ar dudalen flaen yr adran berthnasol o'r llawlyfr, diweddarir y rhestr pan gyhoeddir pob diweddariad i'r llawlyfr.

Cymorth Cyntaf

Cyfrifoldeb Swyddogion Prosiect Tir Coed, trwy law eu gweithwyr gweithredol, yw sicrhau bod yna ddigon o offer Cymorth Cyntaf, llyfrau damweiniau ac unigolion cymwys ar gael ac wrth law ar bob un o'r prosiectau ymarferol, ac ar unrhyw weithgaredd arall a reolir yn uniongyrchol.

Digwyddiadau Peryglus, Damweiniau a Chlefyd.

Cyfrifoldeb yr uwch aelod o staff ar y safle yw adrodd ar ddigwyddiadau peryglus, damweiniau a/neu chlefydau, yn unol â Rheolaethau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 1995; cyfeiriwch at **Appendix 1 – "Trefn Cofnodi Damwain" Tir Coed**. Cofnodir pob damwain sydd yn gofyn am gymorth cyntaf ar Ffurflen Cofnodi Damwain neu yn y Llyfr Cofnodi Damweiniau, a'u cadw yn y Ffeil Damweiniau.

Cychwynnir unrhyw newidiadau i bolisïau neu systemau gweithio diogel Tir Coed gan y Rheolwr Iechyd & Diogelwch, ac fe'u rhennir drwy'r Cadeirydd a'r Swyddogion Prosiect.

Peryglon ac Asesu Risg

Mae'n ofynnol gan y Rheolaethau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle (MHSWR) i adnabod peryglon difrifol sydd yn ymwneud â'r gwaith, ac i asesu a lleihau'r risg gysylltiedig. Dyma un o'r prif ffyrdd y bydd Tir Coed yn gwireddu ei hamcanion. Mae Tir Coed wedi cynhyrchu asesiadau risg generig ar gyfer gweithgareddau cyffredin, ac addasir y rhain yn ôl yr amodau lleol. Esbonnir y broses yn Llawlyfr Iechyd a Diogelwch Tir Coed, mae hwn hefyd yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i asesu safleoedd gwaith lle nad oes yna asesiad risg generig ar gael.

Bydd anghenion plant a ieuenctid pan fyddant yn gweithio gyda Thir Coed yn cael ei asesu, a phan fo'n addas, bydd y wybodaeth hyn yn cael ei rannu gyda'r Gweithwyr Cynhaliol a'r rhieni neu'r gwarcheidwaid. Cyfrifoldeb y Rheolwr Iechyd a Diogelwch ydyw adolygu cynnwys a chwmpas yr asesiadau generig. Mae asesiad risg cyflawn yn ystyried pob asesiad arall sydd yn berthnasol dan Reolaethau Triniaeth Gorfforol, Rheolaethau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), Rheolaethau Offer Amddiffynnol Personol yn y Gweithle a Rheolaethau Sŵn yn y Gweithle.

Diogelwch a Lles ar Brosiectau Ymarferol

Mae yna arweinydd neu oruchwylydd penodedig sydd yn gyfrifol am ddiogelwch a lles gwirfoddolwyr neu gyfranogwyr ar bob un o brosiectau ymarferol Tir Coed. Rhoddir cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio offer a gweithio yn ddiogel, ac mae cydymffurfiaeth i arferion diogel yn cael ei fonitro trwyddi draw. Mae'r holl offer ac offer amddiffynnol personol yn cael ei ddarparu. Darperir cyfleusterau ar gyfer creu diodydd poeth a golchi dwylo pan fo'n ymarferol.

Pan mae angen defnyddio offer peiriannol, detholir unigolion â chymhwysedd ddigonol i ddefnyddio'r fath offer. Pan nad yw'r offer wedi ei fanylu, yna mae'n rhaid i reolwyr lynu at ddefnyddio egwyddorion asesu risg i benderfynu ar fesurau rheoli addas.

Iechyd Galwedigaethol

Mae Tir Coed yn adnabod pwysigrwydd diogelu ac hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol ei gweithwyr. Bydd Tir Coed yn gweithio i sefydlu trefniadau er mwyn asesu ffitrwydd gweithwyr i gyflawni eu gwaith, gan geisio adnabod gwaith a allai beryglu unigolion, a'u hatal rhag gwneud y fath waith.

Gweithio ar eich pen eich hun
Weithiau mae'n angenrheidiol i weithwyr Tir Coed weithio ar eu pennau eu hunain mewn ardaloedd pellennig. Er mwyn sicrhau eu diogelwch mae'n rhaid i bob gweithiwr gario ffôn symudol ar bob achlysur pan nad ydynt yn y swyddfa. Mae'n rhaid i bob gweithiwr ddiweddaru eu calendr ar-lein yn reolaidd er mwyn i weithwyr eraill fod yn ymwybodol o'u lleoliad yn gyson.

Ymgynghori â Gweithwyr
Mae Tir Coed yn ceisio cyflawni gofynion Rheolaethau Iechyd a Diogelwch (Ymgynghori â Gweithwyr) gan sicrhau bod POB gweithiwr yn medru caffael ar wybodaeth iechyd a diogelwch trwy ddulliau sydd yn addas i faint a strwythur cyfathrebu y sefydliad. Gall Swyddogion Prosiect drafod materion iechyd a diogelwch gyda'u rheolwyr llinell mewn Cyfarfodydd Tîm misol, neu, yn aml gan gael sgwrs ar y ffôn, gan yrru e-bost neu drefnu cyfarfod. Bydd y rheolwr llinell yn cefnogi'r Swyddogion Prosiect wrth:

- Weithredu ac adolygu Codau Ymarfer.
- Gynorthwyo ar gyfathrebu materion iechyd a diogelwch yn eu cylch gweithrediadol.
- Sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau cyn cyflwyno unrhyw God Ymarfer.
- Adnabod materion allweddol sydd yn ymwneud â iechyd a diogelwch a chynnig argymhellion ar sut i'w datrys.

Archwilio/Monitro Mewnol
Mae gan y Cyswllt Iechyd a Diogelwch gyfrifoldeb dros:

- Monitro gweithrediad y Polisi Iechyd a Diogelwch yn ei leoliad penodol.
- Rhoddi cyngor i'w rheolwr llinell ar unrhyw weithredu adferol sydd yn angenrheidiol er mwyn iddynt gydymffurfio â gofynion y polisi hwn. Dylent hefyd adrodd i'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch ar unrhyw anhawster i gydymffurfio â safonau iechyd a diogelwch a allai amharu ar waith eraill.
- Goruchweld unrhyw weithredu a ddaw o ganlyniad i'r uchod.

Hyfforddiant
Cyfrifoldeb y Rheolwyr Llinell ydyw sicrhau eu bod yn adnabod ac yn darparu unrhyw hyfforddiant ar faterion o iechyd a diogelwch, asesu risg, ayyb., sydd angen ar eu staff. Bydd y Rheolwr Iechyd a Diogelwch yn weithredol wrth adnabod unrhyw anghenion hyfforddi sefydliadol ac yn trefnu darparu'r hyfforddiant hwnnw er mwyn gwella perfformiad iechyd a diogelwch Tir Coed.

Darperir hyfforddiant mewn sgiliau sydd yn gysylltiedig â'u byd gwaith ar gyfer gweithwyr a gwirfoddolwyr yn unol â'r cynllun a lunnir gan eu rheolwr llinell. Mae hyn yn cynnwys eu hanwytho ar y Polisi Iechyd a Diogelwch a sut i'w weithredu yn y gweithle, ac unrhyw wybodaeth diogelwch sydd yn berthnasol i'w gwaith.

Gweithio gyda Grwpiau Bregus
Mae Tir Coed yn cydnabod bod rhai unigolion a grwpiau dan risg ychwanegol o ganlyniad i'r gweithgareddau a gynigir. Mae pob asesiad risg yn ystyried natur y criw sydd yn cyfranogi ac yn rhestri y mesurau ychwanegol sydd angen er mwyn rheoli'r risg cysylltiedig.

Lleoliadau mewn Sefydliadau Eraill
Mae gan Tir coed nifer o raglenni allweddol sydd yn dibynnu ar leoli gwirfoddolwyr neu ddysgwyr gyda sefydliadau eraill ar gyfer profiad gwaith neu hyfforddiant. Pan fydd y lleoliad yn cael ei drefnu gan Tir Coed yn uniongyrchol, bydd y sefydliadau hyn yn cael eu harchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig lleoliad diogel i'r safonau lleiaf. Bydd yna ddisgwyliad i unrhyw sefydliad sydd yn methu cydymffurfio â'r safonau yn y lle cyntaf, neu sydd yn methu yn ystod cyfnod y lleoliad, wella eu safonau neu wynebu tynnu'r lleoliad oddi arnynt.

Appendix 1 – Trefn Cofnodi Damwain

Trefn Cofnodi Damwain

Rhaid cofnodi pob damwain, niwed neu salwch yn ymwneud gwaith ar Ffurflen Cofnodi Damwain Tir Coed neu mewn Llyfr Cofnodi Damwain a ddarparwyd gan Tir Coed.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Damweiniau i staff Tir Coed, tiwtoriaid/hyfforddwyr neu weithwyr cynnal; gan gynnwys damweiniau llai;
- Damweiniau i eraill, e.e cyfranogwyr, gwirfoddolwyr, gweithwyr cynnal o sefydliadau partneriaith, ymwelwyr, ymddiriedolwyr, ayb.
- Niwed peryglus, megis t□n;
- Salwch sy'n deillio o'r gweithle.

Mae rheolau RIDDOR (1995) yn datgan y dylai Tir Coed hysbysu'r Gweithredwr Iechyd a Diogelwch (HSE) am ddamweiniau neilltuol. Rhaid hysbysu Rheolwraig Iechyd a Diogelwch Tir Coed ar unwaith am y canlynol:

Niweidiau Difrifol gan gynnwys:

- torri asgwrn, heblaw'r bysedd, bodiau neu fysedd y traed;
- torri aelod;
- dadgymalu'r ysgwydd, y clin, y pen-glin neu'r asgwrn cefn;
- colli golwg (dros dro neu'n barhaol);
- llosg i'r llygad gan gemeg neu fetal poeth, neu unrhyw niwed dwys i'r llygad;
- niwed o ganlyniad i sioc trydanol neu losg trydanol sy'n pery anymwybyddiaeth, neu sy'n arwain at ddadebriad neu arhosiad mewn ysbyty am mwy na 24 awr;
- unrhyw niwed arall: salwch o ganlyniad i oerfel neu wres eithafol neu anymwybyddiaeth, neu sy'n arwain at ddadebriad neu arhosiad mewn ysbyty am mwy na 24 awr;
- marwolaeth.

Niweidiau 3-Diwrnod:

- Unrhyw ddamwain neu niwed, sy'n gysylltiedig □ neu'n deillio o weithgaredd gwaith, sy'n golygu bod person i ffwrdd oddi wrth, neu'n methu cyflawni, ei waith arferol am mwy na 3 diwrnod.

Digwyddiadau Peryglus (gweler Canllawiau HSE)

Afiechydon i'w Cofnodi (gweler Canllawiau HSE)

- Afiechydon penodol sy'n gysylltiedig a gweithgareddau neu gemegau/defnyddiau neilltuol.

Os oes unrhyw amheuaeth am be ddylid ei gofnodi, cysylltwch Rheolwraig Iechyd a Diogelwch Tir Coed.

Noder: Dylid dychwelyd pob Ffurflen Cofnodi Damwain a Llyfr Damwain i Swyddfeydd Tir Coed (Tŷ Lisburne, Pontrhydygroes neu Fferm Denmark, Betws Bledrws) i'w cadw yn y Ffeil Damweiniau.